Rhybudd o Gynnig

Gofynnwn fod Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd ymagwedd sy'n fwy pendant o ran y polisi a gweithdrefnau cwynion. Yn sgil diweddariad i'r ddeddf amrywiaeth a chydraddoldeb, gofynnwn fod y cyngor yn llunio gweithdrefn fewnol newydd i sicrhau y gellir dwyn ymddygiad cynghorwyr i gyfrif.

Gofynnwn hefyd fod y cyngor yn adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer adolygu cwynion o ran bwlio ac aflonyddu, sy'n ymwneud â Chynghorwyr, Swyddogion ac eraill, boed yn rhithiol, yn bersonol neu ar gyfryngau cymdeithasol.

Argymhelliad
1. Bod y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y broses gwyno bresennol i sicrhau ei bod yn addas i bwrpas.
2. Bod y cyngor yn sefydlu gweithgor amrywiaeth a moeseg i archwilio sut mae'r cyngor yn diogelu a hyrwyddo amrywiaeth a moeseg da yng Nghymru, gan gynnwys ymwybyddiaeth o sut mae merched yn parhau i gael eu trin yn anghyfartal ac effaith casineb at fenywod a gwahaniaethu ar sail rhyw ar ferched.
3. Ein bod yn fwy pendant fel cyngor wrth fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol mewn unrhyw fforwm Cyngor Cymuned, Tref neu Gyngor Sir.